**Nodyn o Gyfarfod Cyngor Datblygu'r Economi**

**Amser: 10:30 – 12.30**
**Dyddiad: 18 Mehefin 2018**
**Lleoliad: Caerdydd 1, Parc Cathays, Caerdydd.**

## Y Gweinidogion a oedd yn bresennol

| Enw | Sefydliad |
|---|---|
| Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC | Prif Weinidog Cymru |
| Mark Drakeford AC | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid |
| Ken Skates AC | Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth |

## Y Rhanddeiliaid a oedd yn bresennol

| | |
|---|---|
| Lloyd Powell | Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig |
| Leighton Jenkins | Cydffederasiwn Diwydiant Prydain |
| Martin Warren | Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yn Lloegr a Chymru |
| Robert Lloyd Griffiths | Sefydliad y Cyfarwyddwyr |
| Ifan Glyn | Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr |
| Ben Cottam | Ffederasiwn Busnesau Bach |
| Lowri Morgan | Cymdeithas y Cyfreithwyr |
| Sasha Davies | Cadeirydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru |
| Heather Myers | Siambr Fasnach De Cymru |
| Derek Walker | Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Nigel Keane | Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru |
| Nisreen Mansour | TUC Cymru |
| Ceri Williams | TUC Cymru |

## Ymddiheuriadau

| | |
|---|---|
| Ian Price | Cydffederasiwn Diwydiant Prydain |
| Julie-Ann Haines | Cyngor Benthycwyr Morgeisi |
| Paul Byard | EEF (Cadeirydd Commerce Cymru) |
| Sally Gilson | Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau |
| Mark Harris | Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi |
| Lynn Robinson | Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig |
| Huw Thomas | Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr |
| Julie Cook | TUC Cymru |
| Martin Mansfield | TUC Cymru |

## Swyddogion Llywodraeth Cymru

| | |
|---|---|
| Y Fonesig Shan Morgan DCMG | Yr Ysgrifennydd Parhaol |
| Paul Harrington | Eitem 2 ar yr Agenda |
| Simon Jones | Eitem 3 ar yr Agenda |
| Marcella Maxwell | |
| Mick McGuire | |
| Jonathan Price | |
| Andrew Slade | |
| Jane Anstee | Cofnodydd |
| Adam Jurd | Cofnodydd |

## 1. Cyflwyniadau a Sylwadau Agoriadol

1.1 Estynnodd Prif Weinidog Cymru groeso i'r aelodau a chyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid. Dywedodd y Prif Weinidog y byddai angen iddo adael yn gynnar ac y byddai Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth yn cadeirio gweddill y cyfarfod. Estynnodd y Prif Weinidog groeso i'r cyfarfod i Sasha Davies, cynrychiolydd WESB[1], ac ychwanegodd y byddai'n rhoi diweddariad ar sgiliau dan Unrhyw Fater Arall. Estynnodd y Prif Weinidog groeso i Andrew Slade i'w ail gyfarfod o'r Cyngor, a diolchodd i Mick McGuire a oedd yn mynychu ei gyfarfod olaf o'r Cyngor cyn ymddeol.

1.2 Nododd y Prif Weinidog y pedair prif eitem ar yr agenda:

- Trefniadau Pontio'r Undeb Ewropeaidd
- Trafnidiaeth Cymru a Masnachfraint Cymru a'r Gororau
- Cynnydd o ran y Cynllun Gweithredu ar yr Economi
- Y Sector Busnesau Cymdeithasol yng Nghymru.

## 2. Trefniadau Pontio'r UE – diweddariad ar y datblygiadau

2.1 Gwahoddodd y Prif Weinidog Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid i roi diweddariad ar Drefniadau Pontio'r UE.

2.2 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid fod llawer o bethau wedi digwydd ers cyfarfod diwethaf y Cyngor, ac amlinellodd y chwe mater mwyaf amlwg:

- Cyfarfu JMC (EN)[2] ym mis Mawrth[3] ac ym mis Ebrill[4] i gytuno ar ddull gweithredu newydd o ran Cymal 11 o Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) (y Bil Diddymu Mawr gynt). Byddai Cymal 11, fel y cafodd ei ddrafftio'n wreiddiol, wedi rhoi'r holl bwerau a ddelir ar lefel yr UE ar hyn o bryd i San Steffan. Mae Llywodraeth Cymru wedi cael cytundeb sy'n golygu y bydd yr holl feysydd polisi, ar wahân i nifer cyfyngedig ohonynt, yn cael eu dychwelyd i Gymru, ar sail 'fframweithiau' ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan y bydd angen i'r deddfwrfeydd datganoledig gydsynio iddynt.

---

[1] WESB – Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru.
[2] JMC(EN) – Y Cyd-bwyllgor Gweinidogion ar negodiadau'r UE.
[3] Datganiad Ysgrifenedig y Prif Weinidog yn dilyn cyfarfod y Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Cyfarfod Llawn) ar 14 Mawrth 2018.
[4] Llywodraeth Cymru yn cytuno ar Fil Brexit sy'n parchu datganoli, 24 Ebrill 2018.

- Mae Undeb Tollau yn hanfodol i economi Cymru[5].

- Marchnad Sengl – amlinellodd y Prif Weinidog safbwynt Llywodraeth Cymru mewn araith yr wythnos diwethaf[6]. Mae cymaint yn dibynnu ar fynediad llawn a rhydd i'r Farchnad Sengl, a byddai'r DU yn cael ei chynnwys mewn gweithgarwch lle byddai angen i gwmnïau fod yn gydnaws â'r UE o safbwynt rheoleiddio er mwyn galluogi masnachu esmwyth.

- Peidio â cholli ceiniog o gyllid o ganlyniad i Brexit[7] – mae Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau â'r Trysorlys, gan fod angen addasiad parhaol tuag at i fyny ar linell sylfaen Llywodraeth Cymru, hynny yw, o leiaf y lefelau a gafwyd yn hanesyddol drwy gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi'r UE.

- Mewnfudo[8] - rydym yn cydnabod bod Llywodraeth y DU wedi llacio'r rheolau ynghylch mewnfudo yn ddiweddar i ganiatáu i ragor o feddygon a nyrsys o'r tu allan i'r UE ddod i'r DU. Fodd bynnag, mae angen inni recriwtio rhagor o bobl yn y sectorau preifat, cyhoeddus ac ymchwil i fynd i'r afael â phrinder posibl gweithwyr medrus.

- Pontio – croesawyd y ffaith bod Cyngor y Gweinidogion wedi cytuno ar fargen bontio ym mis Mawrth[9], sef yr hyn yr oedd Llywodraeth Cymru wedi galw amdano.

2.3 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Fforwm Gweinidogol newydd wedi'i sefydlu ynghylch y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol, lle bydd gweinyddiaethau datganoledig yn cael cyfle i gyfrannu at ddatblygu safbwynt negodi'r DU, a bydd Rebecca Evans, y Gweinidog Tai ac Adfywio, yn cynrychioli Llywodraeth Cymru[10].

2.4 Roedd Nisreen Mansour yn croesawu safbwynt Llywodraeth Cymru yn fawr, sef parhau i fod yn aelod o'r Undeb Tollau, gan na fyddai 'Brexit caled' yn gweithio. Ychwanegodd Nisreen ei bod yn edrych ymlaen at gydweithio â Llywodraeth Cymru ynghylch trefniadau pontio'r UE a materion yn ymwneud â'r farchnad lafur a'r gweithlu.

---

[5] 2 Chwefror 2018 - Prif Weinidog Cymru yn cyhoeddi gweledigaeth ar gyfer masnachu ar ôl Brexit.
[6] Araith Prif Weinidog Cymru yn King's College, Llundain, ar 14 Mehefin: Brexit a Phapur Gwyn Llywodraeth y DU
[7] Papur Llywodraeth Cymru a lansiwyd ar 28 Mawrth 2018 - Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit.
[8] Papur Llywodraeth Cymru a lansiwyd ar 7 Medi 2017 - Brexit a Thegwch o ran Symudiad Pobl.
[9] Cytundeb Ymadael Drafft - 19 Mawrth 2018. Mae timau negodi'r DU a'r UE yn bwriadu cwblhau'r Cytundeb Ymadael cyfan erbyn mis Hydref 2018.
[10] Datganiad Ysgrifenedig - Fforwm Gweinidogion ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol, 24 Mai 2018.

2.5 Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet i Nisreen a dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn darparu cronfa gwerth £50 miliwn[11] i helpu busnesau i ddelio â'r heriau yn sgil Brexit. Ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru ar fin gwneud y dyraniadau cyntaf ac y byddai rhagor o ddyraniadau ddechrau'r hydref. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod wedi cwrdd ag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth yn ddiweddar a'u bod wedi trafod materion ynghylch y farchnad ac amddiffyniadau priodol.

2.6 Gofynnodd Ben Cottam a fyddai'r amserlen ar gyfer y Fforwm yn parhau ar ôl Brexit er mwyn caniatáu ar gyfer trafodaethau rhwng llywodraethau. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y Fforwm wedi'i gynllunio i ganolbwyntio ar y berthynas yn y dyfodol rhwng y DU a'r EU ac y disgwylir iddo ddod i ben ddiwedd y flwyddyn. Ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru yn ceisio cynrychiolaeth gryfach, gan nad yw trefniadau'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion yn ddigonol ar gyfer y DU ar ôl Brexit.

2.7 Dywedodd Leighton Jenkins ei fod yn gwerthfawrogi'n fawr ddull gweithredu Llywodraeth Cymru a gofynnodd a oes rôl i fusnesau. Gofynnodd hefyd pa mor dryloyw fyddai dull gweithredu'r DU o ran setliad teg. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n galed ar lefel y swyddogion a lefel y Cyd-bwyllgor Gweinidogion i ddod i gytundeb ynghylch Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) gyda Llywodraeth y DU. Ychwanegodd ei fod wedi bod yn pwyso am fwy o dryloywder ynghylch y fframweithiau ac i gynnwys rhanddeiliaid o'r tu allan i'r Llywodraeth yn y drafodaeth er mwyn profi dichonoldeb y cam nesaf.

2.8 Holodd Derek Walker ynghylch disodli cronfeydd yr UE, er enghraifft ar gyfer seilwaith, pan fyddant yn dod i ben yn 2020. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y dylem ymrwymo cymaint o'r cronfeydd strwythurol â phosibl hyd at ddiwedd mis Mawrth 2019 ac na fyddai'n tynnu'n ôl mewn perthynas â chynlluniau presennol WEFO. Ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau â'r Trysorlys a bod nifer o gyfleoedd, ond nad yw rhai ohonynt yn dderbyniol, megis y Gronfa Ffyniant Gyffredin arfaethedig. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio'r arian sylfaenol y mae'n ei gael oddi wrth yr UE. Gallai Cymru fod ar ei cholled dan Gronfa Ffyniant Gyffredin, gan y byddai perygl y byddai'r cyllid sy'n seiliedig ar anghenion i'n cymunedau tlotaf yn lleihau.

2.9 Dywedodd Leighton Jenkins fod teimlad bod angen arian ar gyfer twf economaidd ac nad oedd y gymuned fusnes yn gyffredinol yn gwybod am bapur Llywodraeth Cymru, Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit[12]. Ychwanegodd nad oedd yn eglur a oedd holl gyllid yr UE wedi'i wario'n dda. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn cydnabod y pwynt a wnaed ynghylch cyllid a chyflawni a bod y papur ynghylch Buddsoddi

[11] Cronfa Bontio'r UE cyhoeddwyd, 8 Ionawr 2018.
[12] https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/2017-12/buddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-ar-ol-brexit.pdf

Rhanbarthol yn crynhoi’r sefyllfa, gan gynnwys y gwersi a ddysgwyd. Ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru wedi cynnal amrywiaeth o weithgareddau i geisio barn ynghylch y cynigion wrth symud ymlaen a amlinellwyd yn y papur, ac y byddai’n cyhoeddi’r canlyniadau’n fuan. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y bydd y trefniadau partneriaeth yn allweddol i lwyddiant.

2.10 Dywedodd Sasha Davies mai un o’r prif bwyntiau i’r Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau yw sgiliau ar draws y sector adeiladu a rhyddid gweithwyr i symud. Nododd Sasha Wylfa Newydd[13] yn enghraifft. Ychwanegodd fod angen sicrwydd ynghylch llais cryf dros Gymru yn Llywodraeth y DU. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru yn manteisio ar bob cyfle i hybu rhyddid pobl i symud, fel nad yw diwydiannau, gan gynnwys y diwydiant adeiladu, lletygarwch, prifysgolion, ac ati, dan anfantais. Ychwanegodd fod safbwynt y DU o ran polisi mewnfudo yn gwahaniaethu oddi wrth safbwynt Llywodraeth Cymru, a bod hynny’n cael ei ddwysáu gan fod y Gweinidogion yn newid yn aml yn y Swyddfa Gartref. Felly, roedd yn anodd parhau i fod yn optimistaidd ynghylch y mater hwn.

## 3. Diweddariad ar Drafnidiaeth Cymru a Masnachfraint Cymru a’r Gororau

3.1 Dywedodd y Prif Weinidog, yn dilyn y cyhoeddiad bythefnos yn ôl[14], ein bod ar drothwy cyfnod newydd i’r diwydiant rheilffyrdd, gan fod trenau gwell ac amlach, sydd wedi’u haerdymheru, ym mhob rhan o Gymru. Gwahoddwyd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth gan y Prif Weinidog i roi diweddariad ar Drafnidiaeth Cymru a Masnachfraint Cymru a’r Gororau.

3.2 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth fod hwn yn gyfnod cyffrous a bod gan KeolisAmey hanes cryf ledled y DU, gan gynnwys gweithredu Metrolink Manceinion Fwyaf a’r Rheilffordd Ysgafn yn Ardal y Dociau, Llundain. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet mai nhw yw un o’r gweithredwyr gorau yn Ewrop, a’u bod wedi sgorio hyd at 95% mewn arolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid, ac y bydd y fasnachfraint yng Nghymru yn dechrau ym mis Hydref.

3.3 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod gan KeolisAmey gontract am 15 mlynedd ac y bydd yn cynnwys £738 miliwn ar gyfer Metro De Cymru, £194 miliwn i foderneiddio 247 o orsafoedd a £800 miliwn ar gyfer stoc drenau. Ychwanegodd, erbyn 2025, y bydd 95% o’r teithiau yn cael eu gwneud ar stoc drenau newydd. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y bydd stoc rholio arall yn

[13] Datganiad Ysgrifenedig – Wylfa Newydd, 5 Mehefin 2018.
[14] Buddsoddiad o £5 biliwn i drawsnewid gwasanaethau rheilffordd ledled Cymru, 4 Mehefin 2018.

cynnwys hen drenau tanddaearol Llundain a fydd yn cael eu gwagio a'u diweddaru.

3.4 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'r fasnachfraint yn gydnaws â'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi[15] a bod hyn yn enghraifft o'r Cynllun yn gweithio'n ymarferol, gyda manteision economaidd ochr yn ochr ag amcanion o ran trafnidiaeth ac adfywio. Ychwanegodd y bydd y Cyflog Byw Gwirioneddol yn cael ei raeadru drwy'r gadwyn gyflenwi ac y bydd 600 o swyddi a 450 o brentisiaethau yn cael eu creu. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y bydd 130 o swyddi eraill yn cael eu creu wrth i KeolisAmey symud eu pencadlys a'u canolfan ddylunio i Gymru. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y bydd nifer o'r trenau sydd eu hangen ar gyfer y gwasanaeth newydd yn cael eu cynhyrchu yn ffatri CAF yng Nghasnewydd.

3.5 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y gall yr elfen metro weithredu ar reilffyrdd confensiynol yn ogystal ag ar ffurf tram trydan, tra bydd trenau tri modd yn cyfuno pŵer diesel ag allyriadau isel, batri a thrydan 25kV. Ychwanegodd y bydd prif flaenoriaethau teithwyr wrth galon y gwasanaeth newydd. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y bydd depo newydd yn cael ei adeiladu yn Ffynnon Taf, gan gynnwys canolfan reoli integredig ar gyfer Metro De Cymru.

3.6 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y bydd defnyddio batris yn galluogi rhaglen drydaneiddio "glyfar", lle na fydd angen llawer o addasiadau i bontydd a strwythurau eraill, gan leihau tarfu.

3.7 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y bydd y contract yn cynnig cyfle enfawr i fentrau cymdeithasol a mentrau bach ac y bydd yn helpu i ddatblygu sylfaen weithgynhyrchu gref sy'n canolbwyntio ar reilffyrdd, yn enwedig yn ardal Casnewydd. Dywedodd y gallai mentrau cymdeithasol fanteisio ar gyfleoedd busnes mewn gorsafoedd, gan ddefnyddio mannau gwag. Bwriedir cynorthwyo mudiadau gwirfoddol yn y cyswllt hwn, gan y byddant yn helpu i adfywio gorsafoedd mawr a bach. Ychwanegodd fod cyfleoedd i gymunedau gwledig a chymunedau llai o ran mentrau cymdeithasol mewn gorsafoedd trenau.

3.8 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Trafnidiaeth Cymru, sef un o gwmnïau hyd braich dielw Llywodraeth Cymru, wedi arwain y broses gaffael a'i fod bellach wedi'i sefydlu'n dda i fod yn bartner i KeolisAmey er mwyn sicrhau bod gwelliannau gwirioneddol yn cael eu cyflawni.

3.9 Dywedodd Ceri Williams fod TUC Cymru yn croesawu'r cyhoeddiad yn fawr, yn benodol y dull partneriaeth o ran caffael a chynnwys undebau'r rheilffyrdd yn y broses. Ychwanegodd ei fod yn gobeithio y bydd egwyddorion Gwaith Teg yn parhau i fod yn ganolog i'r gwaith o gyflawni'r fasnachfraint, ac yn

[15] Cynllun Gweithredu ar yr Economi.

benodol fod unrhyw gontractau sy'n cael eu dyfarnu fel rhan o'r fasnachfraint yn hwyluso cydfargeinio i'r staff.

3.10 Dywedodd Robert Lloyd Griffiths fod y cyhoeddiad yn newyddion da a'i fod yn cynnig cyfle i'r sector addysg bellach ymgysylltu â busnesau i ddarparu cyrsiau sy'n diwallu eu hanghenion o ran hyfforddiant.

3.11 Dywedodd Ben Cottam ei fod yn cefnogi'r contract gan y byddai gweithwyr yn cael gwell gwasanaeth wrth deithio i'r gwaith. Ychwanegodd fod perchnogion busnesau bach yn dibynnu ar y gwasanaeth hwn a'u bod yn edrych ymlaen at weithio gyda'r fasnachfraint ynghylch sut y gall busnesau bach a chanolig fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi. Ychwanegodd y byddai defnyddio mentrau cymdeithasol yn ffordd dda o ddefnyddio mannau gwag mewn gorsafoedd.

3.12 Dywedodd Heather Myers ei bod yn newyddion da y bydd busnesau llai yn rhan o'r gadwyn gyflenwi.

3.13 Croesawodd Martin Warren y cyhoeddiad a dywedodd ei fod yn gydnaws â'r Bargeinion Dinesig a'r Bargeinion Twf.

3.14 Croesawodd Derek Walker y cyhoeddiad ac roedd yn edrych ymlaen at fod yn rhan o'r gadwyn gyflenwi.

3.15 Croesawodd Leighton Jenkins y cyhoeddiad a dywedodd y gallai eraill ddysgu gwersi ynghylch y ffordd y cynhaliwyd y broses gaffael, gan gynnwys y dull datblygu economaidd rhanbarthol.

3.16 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod gwersi allweddol yn cael eu dysgu ynghylch caffael cystadleuol ac y gellid defnyddio'r broses hon mewn mannau eraill. Dywedodd fod gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, Chris Grayling, ddiddordeb yn y dull caffael a ddefnyddiwyd yng Nghymru, yn ogystal â mewn ardaloedd eraill ledled y DU.
Amlinellodd y broses gaffael a gynhaliwyd a oedd yn seiliedig ar ganlyniadau ac a oedd yn canolbwyntio ar ansawdd ac arloesi, yn ogystal â'r ymgynghoriad â rhanddeiliaid, lle cafwyd mwy na 1,300 o ymatebion. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet mai hwn yw'r canlyniad gorau posibl.

3.17 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y bydd y stoc rholio a ddefnyddir ar gyfer Metro De Cymru yn cynnig 45% yn fwy o seddau i Gaerdydd yn ystod oriau brig y bore.

3.18 Gwahoddodd Ysgrifennydd y Cabinet aelodau'r Cyngor i roi gwybod iddo os ydynt am ymgysylltu'n uniongyrchol â Thrafnidiaeth Cymru a bydd yn eu gwahodd i'r cyfarfodydd.

3.19 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod cyfle enfawr i addysg bellach ac y bydd 450 o brentisiaethau yn sgil cynhyrchu stoc rholio a'r angen i feddu ar y

sgiliau iawn. Ychwanegodd fod angen inni gydweithio’n agosach ag

awdurdodau lleol, gan gyfeirio at orsaf fysiau Caerdydd, fel bod y bobl iawn yn gweithio gyda’i gilydd. Ychwanegodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y seilwaith iawn yn gatalydd twf.

3.20 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod hyn yn rhan o Ddatblygu Economaidd Rhanbarthol a chyfeiriodd at Fwrdd Twf y Gogledd a’r Dinas-ranbarthau. Ychwanegodd fod pob cysyniad ynghylch metro ar wahanol gamau ac y byddant yn cysylltu cymunedau yn well.

3.21 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod seilwaith y rhwydwaith rheilffyrdd wedi’i danariannu. Ychwanegodd fod ar Orsaf Caerdydd Canolog angen buddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth y DU.

## 4. Cynnydd o ran y Cynllun Gweithredu ar yr Economi

4.1 Dywedodd y Prif Weinidog y bydd yn rhaid iddo adael cyn bo hir a throsglwyddodd yr awenau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth.

4.2 Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet i’r Cyngor am gyfrannu at ddatblygu’r Cynllun Gweithredu ar yr Economi, gan gynnwys helpu i wella’r Meysydd Gweithredu, y Contract Economaidd a Chronfa Dyfodol yr Economi. Ychwanegodd ei fod wedi sefydlu Bwrdd Cynghori’r Gweinidog[16] newydd i gyfrannu at y broses o lunio polisïau a darparu cyngor allanol, yn ogystal â Bwrdd Cyflawni mewnol newydd o uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru i lywio’r gwaith o gyflawni’r Cynllun Gweithredu ar yr Economi ar draws portffolios yr holl Weinidogion.

4.3 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y bydd cam 2 o’r broses weithredu yn cynnwys dull newydd o ran datblygu economaidd rhanbarthol a sectorau sylfaen ac y byddai’n gwerthfawrogi rhagor o fewnbwn gan y Cyngor. Y dull gweithredu rhanbarthol newydd yw cael gwared ag anghydraddoldebau ledled Cymru a hybu twf cynhwysol. Bydd cynlluniau galluogi yn cael eu datblygu ar gyfer y pedwar Sector Sylfaen, sef Twristiaeth, Bwyd, Manwerthu a Gofal. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y Prif Swyddogion Rhanbarthol wedi dechrau gwaith yn y rhanbarthau.

4.4 Roedd Nisreen Mansour yn croesawu twf cynhwysol a’r ffaith bod y contract economaidd yn gysylltiedig â gwaith teg. Ychwanegodd y byddai’n hoffi gweld asesiadau’n cael eu cynnal gan banel o bartneriaid cymdeithasol, fel yn achos Proact. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn awyddus i gyrff rhyngwladol herio’r Cynllun Gweithredu ar yr Economi ac, am y rheswm hwnnw, mae’n dechrau deialog gyda’r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a

[16] Contract economaidd newydd ar gyfer busnesau sy’n ceisio cymorth gan Lywodraeth Cymru, 20 Mai 2018

Datblygiad Economaidd (OECD)[17] ac arbenigwyr eraill ym maes datblygu economaidd, gan ddysgu oddi wrthynt a rhoi unrhyw wersi a ddysgwyd ac arferion gorau ar waith. Ychwanegodd ei fod yn awyddus i ymgysylltu â phartneriaid cymdeithasol.

4.5 Holodd Ifan Glyn ynghylch y gwaith sy'n cael ei wneud i ddarparu rhagor o gymorth i fusnesau bach. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y bydd Busnes Cymru[18] yn rhoi cefnogaeth a chymorth i fusnesau er mwyn sicrhau eu bod yn cael cyllid os ydynt yn cydymffurfio â'r Contract Economaidd a'r Meysydd Gweithredu. Byddent yn cyfeirio at wasanaethau eraill pe na bai'r llwybr hwn yn ddewis.

4.6 Dywedodd Leighton Jenkins fod datblygu economaidd rhanbarthol yn hanfodol a'i fod yn gobeithio y byddai gan y Prif Swyddogion Rhanbarthol yr adnoddau i gyflawni'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi. Ychwanegodd y byddai'n ddefnyddiol croesgyfeirio rhwng y gwaith hwn â'r fframwaith cynllunio. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai gan y Prif Swyddogion Rhanbarthol adnoddau priodol. Ychwanegodd mai'r camau nesaf yw datblygu a gweithredu ein dull o ran datblygu economaidd rhanbarthol, a fydd yn dod â Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a busnesau at ei gilydd ac yn cyfannu trefniadau'r bargeinion twf a'r bargeinion dinesig.

**5. Y Sector Busnesau Cymdeithasol yng Nghymru**

5.1 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth ei fod wedi ymrwymo'n llwyr i gefnogi mentrau cymdeithasol yng Nghymru a'i fod yn cydnabod pwysigrwydd mentrau cymdeithasol i'r economi. Dywedodd fod Michael Sheen yn gwneud darn o waith annibynnol ar hyn o bryd i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer y sector yng Nghymru, ynghyd ag adolygiad o'r dirwedd bresennol. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei bod yn bwysig defnyddio'r gwaith y mae Michael yn ei wneud. Ychwanegodd fod y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn cefnogi'r rhwydwaith mentrau cymdeithasol.

5.2 Dywedodd Derek Walker fod Michael Sheen yn llysgennad gwych i'r sector ac y byddai'n sicrhau ei fod yn gyson â'i waith, fel eu bod yn dod at ei gilydd. Dywedodd mai'r rheswm dros yr eitem ar yr agenda yw ei fod yn ceisio cefnogaeth gan bartneriaid cymdeithasol i ddatblygu strategaeth ar gyfer y sector. Dywedodd Derek mai'r uchelgais yw dyblu maint y sector yn y degawd nesaf, os bydd pawb yn cydweithio.

5.3 Dywedodd Derek ei fod yn deall bod Llywodraeth Cymru am leihau nifer y strategaethau, ond bod y Cynllun Gweithredu ar yr Economi a Ffyniant i

[17] Cenhadaeth y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) yw hybu polisïau a fydd yn gwella lles economaidd a chymdeithasol pobl ledled y byd. Mae'r OECD yn cynnig fforwm lle gall llywodraethau gydweithio i rannu profiadau a cheisio atebion i broblemau cyffredin.
[18] Gwefan Busnes Cymru.

Bawb: y Strategaeth i Gymru[19] yn rhoi ychydig o fanylion ynghylch y sector busnesau cymdeithasol a sut y bydd twf cynhwysol yn cael ei gyflawni. Dywedodd fod y sector yn gweithredu drosto ei hun, drwy gynnwys partneriaid cymdeithasol megis busnesau, gan gynnwys Sefydliad y Cyfarwyddwyr, a'r undebau llafur a Legal & General. Dywedodd Derek fod Legal & General yn cynnig mynediad at gyllid i fusnesau cymdeithasol ar sail ddi-log.

5.4 Dywedodd Derek ei fod wedi gweithio gyda TUC Cymru a Llywodraeth Cymru ar y cynlluniau peilot sy'n cael eu cynnal yn y rhaglen Swyddi Gwell yn Nes Adref[20]. Dywedodd y bydd y dysgu o ganlyniad i'r broses gaffael yn cael effaith wirioneddol ar y sector a busnesau bach a chanolig yn gyffredinol.

5.5 Dywedodd Derek fod Canolfan Cydweithredol Cymru a Sefydliad Bevan wedi cyhoeddi Adroddiad yn ddiweddar ynghylch newid y ffordd rydym yn cysylltu â phobl ac yn cynnal busnes â'n gilydd[21]. Mae'r Adroddiad yn amlygu chwe cham[22] i gyflawni economi gynhwysol yng Nghymru ac mae'n dadlau y dylai hybu cydraddoldeb fod wrth galon datblygu economaidd. Dywedodd Derek fod ganddo ddau gais:

- bod partïon ehangach yn ymwneud â'r Adroddiad, nid dim ond heddiw; a
- siarad gyda swyddogion ynghylch yr Adroddiad a'r camau nesaf.

5.6 Croesawodd Ben Cottam yr Adroddiad a dywedodd fod y Ffederasiwn Busnesau Bach yn cynnwys nifer o aelodau cymdeithasol. Dywedodd fod ceisiadau Derek yn rhesymol a'u bod yn cynnig cyfle i fod yn fwy gweledol. Dywedodd Ben fod mentrau cymdeithasol yn rhan o'r economi ranbarthol ac y byddai'n falch o drafod y ffordd ymlaen gyda phartneriaid eraill.

5.7 Diolchodd Robert Lloyd Griffiths i Derek am yr Adroddiad a chydnabu'r cyfraniad sylweddol y mae'r economi gymdeithasol yn ei wneud i'r economi. Roedd yn cytuno mai cydweithio yw'r ffordd ymlaen.

5.8 Roedd Lloyd Powell yn cytuno â'r hyn a ddywedwyd: mae'n ymwneud â pherchnogaeth ac effeithiau economaidd a chymdeithasol. Dywedodd mai rhan fach yw cyngor busnes, a bod angen mynediad at gyllid a chyngor cyfreithiol hefyd.

[19] https://gov.wales/newsroom/firstminister/2017/170919-new-national-strategy-for-a-more-prosperous-wales/?skip=1&lang=cy
[20] Rhoddodd Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip ddiweddariad llafar ar y Rhaglen Swyddi Gwell yn Nes Adref, 5 Mehefin.
[21] Creu economi gynhwysol yng Nghymru, 2 Mehefin 2018.
[22] Tyfu'r Economi Sylfaenol; Tyfu'r sector busnesau cymdeithasol; Hybu cyflogau ac amodau; Manteisio i'r eithaf ar gaffael; Cysylltu pobl a swyddi; Gwrando ar bobl.

5.9 Roedd Ceri Williams yn croesawu'r papur a'r Adroddiad. Dywedodd fod TUC Cymru yn rhannu uchelgais Llywodraeth Cymru ynghylch dyfodol â Gwaith Teg i Gymru, a fydd yn gofyn trawsnewid economi Cymru ar draws yr holl sectorau presennol, ac y bydd busnesau cymdeithasol yn chwarae eu rhan yn hyn.

5.10 Gofynnodd Derek a fyddai'r cynllun cymorth i fentrau cymdeithasol yn gymwys i gael cyllid os yw'n bodloni gofynion y Contract Economaidd. Dywedodd y byddai mewn cysylltiad ynghylch hyn.

5.11 Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet y dylai swyddogion Llywodraeth Cymru drafod gyda Derek, mewn partneriaeth â phawb yn yr ystafell.

**CAM GWEITHREDU**: Bydd swyddogion gweithredu Cynllun Gweithredu ar yr Economi Llywodraeth Cymru yn cwrdd â Derek Walker i drafod symud ymlaen ag Adroddiad Canolfan Cydweithredol Cymru a Sefydliad Bevan a gyhoeddwyd yn ddiweddar ynghylch newid y ffordd rydym yn cysylltu â'n gilydd ac yn cynnal busnes â'n gilydd.

**6. (6a) Nodyn a (6b) Chamau Gweithredu'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Chwefror 2018**

6.1 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth fod nodyn o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Chwefror wedi'i ddosbarthu i'r aelodau. Gofynnwyd i'r aelodau am sylwadau a gofynnwyd iddynt gytuno ar y nodyn.

6.2 Cytunwyd ar y nodyn o'r cyfarfod.

**7. Y Cyfarfod Nesaf**

Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth y bydd y cyfarfod nesaf ar 22 Hydref.

**8. Unrhyw Fater Arall**

**Diweddariad ar Fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru (WESB)**

8.1 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth ei fod yn falch bod WESB yn rhan o'r Cyngor yn ffurfiol a gwahoddodd Sasha i roi diweddariad ar yr agenda sgiliau.

8.2 Nododd Sasha Davies brif uchafbwyntiau'r gwaith diweddar gan WESB, gan gynnwys yr angen am sgiliau ym maes adeiladu a gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM). Dywedodd, yng ngogledd Cymru, fod y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn gweithio gyda cholegau a diwydiant. Dywedodd Sasha ei bod yn bwysig cysylltu sgiliau ac ymgysylltu ynghylch Cynlluniau Economaidd Rhanbarthol. Dywedodd fod WESB yn cefnogi

Cynllun Cyflogadwyedd[23] Llywodraeth Cymru sy'n ceisio sicrhau bod pobl yn mynd yn ôl i'r gwaith a llenwi bylchau o ran sgiliau. Dywedodd Sasha fod bwlch o ran sgiliau yn y sector adeiladu y mae angen ei lenwi, a chyfeiriodd at Wylfa Newydd fel enghraifft.

8.3 Dywedodd Sasha fod angen i gyngor ynghylch gyrfaoedd gyd-fynd yn agosach ag anghenion busnesau. Hefyd, gofynnodd beth yw ystyr gwaith teg mewn gwirionedd.

**Diweddariad ar Wylfa Newydd**

8.4 Gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet a allai Sasha roi diweddariad ar Wylfa Newydd.

8.5 Rhoddodd Sasha ddiweddariad llafar, a nododd fod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi dweud mai Wylfa Newydd fydd y cynllun adeiladu nesaf a bod hynny wedi'i groesawu gan Weinidogion Cymru. Dywedodd y bydd yn cyfrannu'n sylweddol at Gymru a chynnyrch domestig gros. Dywedodd Sasha fod trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynghylch y manteision economaidd-gymdeithasol i Gymru a bod hynny'n gysylltiedig â Chynnig Twf[24] Gogledd Cymru. Dywedodd y disgwylir y cais cynllunio ynghylch Wylfa Newydd erbyn 2019/2020.

8.6 Dywedodd Martin Warren fod cyfnod hyfforddi hir i greu sgiliau ac y gall hynny fod yn gysylltiedig â'r cynllun prentisiaethau. Hefyd, gofynnodd a newidiwyd ffocws yr hyfforddiant. Dywedodd Sasha fod cyfnod o dair blynedd i sicrhau bod gennym fathemategwyr/peirianwyr newydd, a fydd yn dibynnu ar adnoddau Llywodraeth Cymru a'r sector preifat. Ychwanegodd fod pryder o hyd ynghylch y ffaith nad yw'r ardoll brentisiaethau yn gwneud yr hyn yr oedd i fod i'w wneud. Ychwanegodd mai'r her yw nifer y prentisiaid ac o ble y byddant yn dod.

8.7 Dywedodd Ifan Glyn fod ardal Wylfa Newydd yn eithaf gwledig ac y bydd angen gweithlu medrus, a fydd yn rhoi pwysau ar fusnesau bach. Dywedodd Sasha fod y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn gweithio gyda'r Llywodraeth i geisio osgoi prinder gweithwyr medrus.

8.8 Dywedodd Lloyd Powell ei fod yn bryderus nad yw prentisiaethau lefel 7 yn cael eu cefnogi ar hyn o bryd.

[23] Ffyniant i Bawb: Cynllun cyflogadwyedd, 21 Mawrth 2018.
[24] Cynghorau'r Gogledd yn Lansio Cynnig Twf fydd yn golygu llawer o filiynau o bunnoedd i Ogledd Cymru, Rhagfyr 2017.

8.9 Dywedodd Leighton Jenkins ei fod yn croesawu’r cyhoeddiad diweddar y bydd yr Athro Phil Brown yn adolygu Arloesi Digidol ar gyfer yr Economi a Dyfodol Gwaith yng Nghymru[25].

8.10 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y bydd prentisiaethau ac adolygiad yr Athro Brown ar yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf y Cyngor.

| |
|---|
| **CAM GWEITHREDU**: Rhoi prentisiaethau ac adolygiad yr Athro Phil Brown o Arloesi Digidol ar gyfer yr Economi a Dyfodol Gwaith yng Nghymru ar yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf y Cyngor. |

## 9. Cloi’r cyfarfod

[25] Cylch Gorchwyl yr Adolygiad, 24 Mai 2018